AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

Deddf Safonau Gofal 2000

ADRODDIAD AROLYGU
Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol

Olcote House
Church Road
Ton-teg
Pontypridd
CF38 1HE

Dyddiad yr Arolygiad

18 Tachwedd 2008

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan, Caerffili,
CF83 3ED

Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r Adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

ADRODDIAD AROLYGU **Digwyddiad Arolygu:** **Ebrill – Mawrth 2009**

Darpariaeth Gofal Iechyd:	Olcote House
Rhif ffôn cyswllt:	01443 207915
Darparwr Cofrestredig:	Parkcare Homes Ltd – Is-gwmni Craegmoor Healthcare
Unigolyn Cyfrifol:	Julian Spurling
Rheolwr Cofrestredig:	Lynne Isles
Nifer y lleoedd:	20
Categori:	Ysbyty Annibynnol – Adsefydlu Iechyd Meddwl. Cofrestrwyd i dderbyn oedolion sy'n agored i gael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
Dyddiad y cofrestriad cyntaf:	14 Medi 1995
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn:	
Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad blaenorol:	26 Chwefror 2008
Arolygydd Arweiniol:	Helen Nethercott
Arolygwyr/Cynghorwyr Arbenigol:	Dean Holyoake – Adolygydd AGIC Val Jones – Adolygydd AGIC

CANLLAWIAU AROLYGU

RHAGARWEINIAD

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn dilyn arolygiad o'r gwasanaeth a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r broses arolygu ac yn cofnodi'r canlyniadau. Mae'r adroddiad wedi'i rannu yn naw rhan benodol, gan adlewyrchu meysydd cyffredinol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae casgliad cyffredinol ynglŷn â chydymffurfiad y cartref/gwasanaeth/sefydliad â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 wedi ei gofnodi.

Mae gan Arolygwyr AGIC yr hawl i fynd i mewn i wasanaethau gofal iechyd a chynnal arolygiad ohonynt ar unrhyw adeg. Ar adeg pob digwyddiad neu gyfnod arolygu cynhelir ymweliad/au â'r gwasanaeth ynghyd ag ystod o weithgareddau eraill megis hunanasesu a'r defnydd o holiaduron. Mae AGIC yn ceisio canfod y modd gorau o gael gwybod am brofiadau'r cleifion, eu perthnasau/cynrychiolwyr a'r staff a gyflogir o fewn y gwasanaeth.

Gellid hefyd ymweld â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn i ymchwilio i gwynion ac ymateb i newidiadau yn y gwasanaeth. Drwy arolygu, mae AGIC yn gallu bodloni ei hun bod cyfiawnhad dros barhau i gofrestru'r gwasanaeth. Mae hefyd yn fodd o sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Rheoliadau cysylltiedig gan ystyried y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

- Datganiad o Ddiben y lleoliad ei hun

Rhaid i ddarllenwyr gofio mai bwriad yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser; weithiau bydd gwasanaethau yn gwella ac weithiau byddant yn dirywio. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol hefyd yn fanwl iawn ac mae rhai ohonynt yn dechnegol eu natur ac nid yw AGIC yn edrych yn fanwl ar bob agwedd ar y safonau hyn ar bob ymweliad.

Mae'r adroddiad yn nodi'n eglur y gofynion a wnaed gan AGIC. Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny a wnaed gan AGIC ers yr adroddiad arolygu diwethaf sydd bellach wedi eu bodloni, gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni ac unrhyw ofynion newydd yn dilyn yr arolygiad diweddar hwn.

Dylai darllenwyr nodi bod y gwasanaeth wedi cydymffurfio'n briodol ag unrhyw ofynion a wnaed yn adroddiad y llynedd nad ydynt wedi'u rhestru yn rhai sydd heb eu bodloni.

Os oes gennych bryderon am unrhyw beth sy'n codi o ganfyddiadau'r Arolygydd, efallai y byddwch yn dymuno eu trafod ag AGIC neu'r person cofrestredig.

Mae'n ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sicrhau bod adroddiadau ar gyfleusterau cofrestredig ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn ddogfen gyhoeddus a bydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: http://www.hiw.org.uk/

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R LLEOLIAD GOFAL IECHYD

Ysbyty annibynnol ugain gwely yw Olcote House sy'n adsefydlu cleifion â salwch meddwl. Mae gan rai o'r cleifion yn Olcote House salwch meddwl parhaus ac ystyrir bod ganddynt gartref am oes yn dilyn cau ysbyty seiciatrig mawr yng nghanol y 1990au. Mae cleifion eraill wedi cael eu trosglwyddo o ysbytai gyda rhaglen wedi'i chynllunio o ofal adsefydlu. Mae Olcote House wedi ei gofrestru i dderbyn cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r ysbyty yn eiddo ac mae'n cael ei gynnal gan Parkcare Homes Ltd, is-gwmni Craegmoor Healthcare. Roedd Parkcare Homes Ltd yn darparu'r amgylchedd ynghyd â'r staff ar gyfer nyrsio, gofal, y gegin, cynnal a chadw a glanhau.

Roedd trefniadau contract wedi'u sefydlu gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol i gomisiynu'r gwasanaeth, ac mae pob atgyfeiriad yn dod gan yr Ymddiriedolaeth leol. Roedd cytundebau contract wedi'u sefydlu rhwng y darparwr a'r Ymddiriedolaeth GIG lleol i ddarparu staff therapi meddygol, seicoleg a galwedigaethol i'r gwasanaeth.

Mae'r contract yn dod i ben ar ddiwedd 2010 ac roedd trafodaethau yn cael eu cynnal ynghylch dyfodol y gwasanaeth.

Mae Olcote House wedi'i leoli yng ngerddi Ysbyty Ton-teg ger Pontypridd. Darperir y llety byw mewn pedwar adeilad cydgysylltiedig. Mae gan y prif dŷ neu'r "craidd" ddeuddeg ystafell wely, lolfa, mannau gweithgareddau a bwyta yn ogystal â'r brif gegin a'r golchdy ar y llawr gwaelod. Ceir swyddfa ac ystafell gyfarfod i fyny'r grisiau. Gallai tri byngalo ar wahân letya cyfanswm o wyth o bobl ac roedd gan bob un ei lolfa/man bwyta, cegin ac ystafell ymolchi/tŷ bach ei hun. Mae digon o le i gleifion eistedd y tu allan os ydynt yn dymuno.

Roedd y staff i gyd yn llawn cymorth a chydweithrediad drwy gydol yr arolygiad a hoffai'r Rheolwr Arolygu ddiolch iddynt am eu cymorth.

Y FETHODOLEG A DDEFNYDDIWYD YN YR AROLYGIAD HWN

Cynhaliwyd y brif broses arolygu yn ystod un diwrnod gyda'r rheolwr arolygu ac adolygwyr AGIC yn casglu gwybodaeth. Roedd y Rheolwr Cofrestredig yn ymwneud â'r broses ac roedd yn gweithredu mewn modd agored a phroffesiynol.

Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu drwy ddadansoddi dogfennau y sicrhawyd oedd ar gael cyn ac yn ystod yr arolygiad, trafodaeth gyda'r tîm staff, taith o amgylch y sefydliad a thrafodaeth gyda nifer o gleifion oedd yn bresennol.

Craffwyd ar nifer o gynlluniau gofal. Roedd agweddau eraill ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn cynnwys arsylwi'n uniongyrchol ar y gofal ac arferion eraill.

Cafwyd archwiliad o'r safle a'r gerddi ac archwiliwyd y polisïau, y gweithdrefnau, taflenni gwybodaeth, tystysgrifau a chofnodion cynnal a chadw. Roedd yr archwiliad yn cynnwys edrych ar gyflwr cyffredinol yr ystafelloedd unigol, gyda chytundeb a gwahoddiad y preswylwyr. Gwelwyd y mannau cymunedol, y golchdy, yr ystafelloedd ymolchi a'r tai bach hefyd.

Arolygwyd y safle'n bennaf yn erbyn Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002, yn ychwanegol at y Safonau Gofynnol Cenedlaethol craidd ar gyfer gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Ategwyd y safonau hyn hefyd gan y safonau penodol i wasanaeth ar gyfer sefydliadau iechyd meddwl, gan gynnwys y safonau ar gyfer sefydliadau lle gellir cadw pobl dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

GWYBODAETH A DDARPERIR

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Datganiad o Ddiben Roedd datganiad o ddiben wedi'i sefydlu i fodloni gofynion rheoliadol. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn 2008. **Canllaw i Gleifion** Roedd canllaw'r claf wedi cael ei ddarparu yn dilyn trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y cleifion ac roedd yn ddogfen oedd yn rhoi'r cleifion yn gyntaf i raddau helaeth iawn, ac mae hyn i'w gymeradwyo. **Hysbysfyrddau** Roedd tystysgrifau perthnasol yn cael eu harddangos ac roedd amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol ar gael ar yr hysbysfwrdd yn y fynedfa. **Trefniadau ar gyfer ymweld** Roedd y datganiad o ddiben yn nodi bod croeso i ymwelwyr unrhyw amser rhwng 10am a 10pm a rhaid bod oedolyn gyda phob ymwelydd dan 18 oed.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0607/a Rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben i fodloni gofynion rheoliadol ac i adlewyrchu'n fanwl y gwasanaeth adsefydlu sydd i'w ddarparu yn Olcote House	30 Mehefin 2007	Rheoliad (5)1 Atodlen 1 Safon C 1.4
0607/b Rhaid i wybodaeth i gleifion fod ar gael mewn iaith a fformat perthnasol er mwyn iddynt ei deall – rhaid i fersiwn hawdd ei ddarllen fod ar gael, o leiaf	30 Mehefin 2007	Rheoliad 7(a) Safon C1.1. C1.4

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

ANSAWDD TRINIAETH A GOFAL

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Llywodraethu Clinigol

Roedd tîm llywodraethu clinigol wedi'i sefydlu. Roedd yr arweinydd Llywodraethu Clinigol yn gweithio mewn man ganolog yn y brif swyddfa ac roedd y rheolwr llywodraethu clinigol yn ei gynorthwyo.

Roedd rhaglen archwilio wedi cael ei datblygu ac roedd hon yn darparu archwiliadau ar gyfer pob ysbyty annibynnol yn Craegmoor. Roedd y broses hon yn para tua 3 diwrnod ac yn arwain at gynllun gweithredu ar gyfer y sefydliad.

Dywedwyd bod cyfarfodydd llywodraethu clinigol yn cael eu cynnal bob 2 fis ar gyfer clystyrau o unedau. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod Llywodraethu Clinigol Craegmoor. Ni welwyd cofnodion cyfarfodydd llywodraethu clinigol fel rhan o'r broses arolygu y tro hwn.

Archwiliad

Mae gan Craegmoor raglen o archwiliadau i'w cwblhau yn gylchol oedd yn cynnwys archwiliadau a sgorio ar feysydd y pynciau canlynol.

- Gweinyddu
- Adnoddau dynol
- Marchnata
- Trefniadau llywodraethu clinigol
- Cynnwys y claf
- Deddf Iechyd Meddwl
- CPA a chynllunio gofal
- Maeth a phrydau
- Asesu risg a rheoli risg
- Rheoli heintiau
- Iechyd a lles cleifion
- Atal a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol
- Rheoli meddyginiaeth
- Gweithgareddau cymdeithasol a therapiwtig
- Preifatrwydd, urddas, cydraddoldeb a dewis
- Datblygu gofal anabledd
- Gallu a chaniatâd
- Cofnodion a rheoli gwybodaeth
- Iechyd a diogelwch
- Cynnal a chadw
- Hyfforddiant
- Golchi dillad a llieiniau
- Y gegin

Polisïau a gweithdrefnau

Cafodd polisïau a gweithdrefnau eu diwygio a'u hailgyflwyno dan oruchwyliaeth y Tîm Llywodraethu Clinigol yn Craegmoor. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu o fewn y tair blynedd diwethaf.

Roedd ffeiliau polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ac wedi eu trefnu'n dda. Disgrifiodd y rheolwr raglen i'r staff dydd a'r staff nos ei darllen a'i llofnodi i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r polisïau.

Gofal sy'n Rhoi'r Claf yn Gyntaf

Roedd y cynlluniau gofal i gyd yn seiliedig ar y model Cynllunio sy'n Rhoi'r Claf yn Gyntaf (PCCP) a ddatblygwyd gan Craegmoor. Dywedodd y rheolwr bod archwiliad corfforaethol wedi cael ei lansio hefyd i fonitro gweithredu PCCP.

Roedd gofal cleifion yn Olcote House wedi cael ei gynllunio a'i weithredu gan staff nyrsio a gyflogir gan Parkcare Homes Ltd sy'n gweithio yn y sefydliad ac aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth o Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf.

Adroddodd y rheolwr bod gan yr holl gleifion gynllun adsefydlu strwythuredig. Roedd yn amlwg bod cynllun gweithgareddau wedi'i sefydlu ar gyfer pob claf. Roedd gweithgareddau'n cynnwys nofio, crefft coed, canolfan ddydd Horizons, Tŷ Draw (canolfan ddydd yr awdurdod lleol), snwcer, tripiau cymdeithasol, siopa. Roedd cynlluniau gofal wedi cael eu datblygu ers yr arolygiad diwethaf i gyflenwi cynllun adsefydlu yn hytrach na chynllun gweithgareddau.

Roedd pob claf wedi ei gofrestru gyda meddyg teulu lleol oedd yn rheoli eu hanghenion corfforol. Adroddodd y rheolwr bod cleifion hefyd yn cael cyfle i weld optegwyr, trinwyr traed a deintyddion yn y gymuned yn ôl yr angen.

Safbwyntiau Cleifion

Cynhelid cyfarfodydd cleifion yn rheolaidd. Roedd menter o'r enw 'Eich Llais' wedi ei sefydlu yn Craegmoor sy'n cynnig ffordd i ddefnyddwyr ddylanwadau ar y gyfundrefn ar lefel y Bwrdd.

Adroddodd cleifion eu bod yn cael eu hannog i drafod materion neu feysydd o bryder gyda'u gweithiwr allweddol neu yn y cyfarfodydd cleifion, yn ôl natur eu pryder. Roedd y cleifion y siaradwyd â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad i gyd yn ymwybodol â phwy y byddent yn siarad pe byddai ganddynt unrhyw bryderon neu gwynion.

Trefniadau eirioli

Roedd cytundeb contract ar gyfer gwasanaethau eirioli i Olcote House i gael eu darparu gan MIND.

Preifatrwydd ac urddas

Darperid llety yn Olcote House i gleifion gwrywaidd a benywaidd. Gwelwyd bod ystafelloedd gwely wedi cael eu personoli gydag eiddo'r unigolion.

Roedd y byngalos yn rhoi llety un rhyw, ond roedd y 'craidd' yn rhoi llety i ddynion a menywod. Yn yr adroddiad arolygu blaenorol cynghorwyd y Rheolwr Cofrestredig i drefnu'r llety mewn ffordd lle'r oedd ystafell ymolchi wedi ei dynodi i fenywod, gydag ystafelloedd gwely'r menywod yn agos ati, ac ystafell ymolchi wedi ei dynodi i ddynion, gydag ystafelloedd gwely'r dynion yn agos ati.

Ni chyflawnwyd hyn erbyn yr arolygiad gan fod rhai cleifion yn dweud nad oeddent yn dymuno symud ystafell wely. Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig y byddai'n gweithredu'r newidiadau wrth i gleifion gael eu derbyn a'u rhyddhau o'r gwasanaeth.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/1 Rhaid i gynlluniau gofal ganolbwyntio ar fodloni anghenion adsefydlu'r unigolyn	31 Awst 2008	Rheoliad 15(1) Safon M11

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0708/2 Rhaid trefnu'r llety fel bod ystafelloedd gwely i ddynion a menywod wrth ymyl y cyfleusterau ymolchi perthnasol	30 Medi 2008	Rheoliad 15(4) Safon M27.4

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

RHEOLI A PHERSONÉL

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Rheolwr Cofrestredig

Mae Mrs Lynne Isles yn nyrs iechyd meddwl brofiadol sydd wedi gweithio yn Olcote House ers sawl blwyddyn. Fe'i cymeradwywyd yn Rheolwr Cofrestredig ar gyfer Olcote House yn 2007.

Unigolyn Cyfrifol

Mr Julian Spurling yw'r Unigolyn Cyfrifol ac ef oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarthol Craegmoor. Cynhaliwyd ymweliadau rheoliad 25 gan y Rheolwr Rhanbarthol ar ran yr Unigolyn Cyfrifol. Darparwyd copïau o'r adroddiadau hyn i AGIC.

Polisïau Adnoddau Dynol

Roedd gan y sefydliad bolisïau a gweithdrefnau wedi'u cynhyrchu'n gorfforaethol gan adran adnoddau dynol Craegmoor Healthcare Ltd. Roedd y swyddfa ranbarthol yng Nghaerffili yn darparu cymorth adnoddau dynol.

Staff – Cymysgedd Sgiliau

Roedd hysbysiadau staffio wedi'u sefydlu ar gyfer Olcote House sy'n nodi bod rhaid i'r lleiafswm staffio ar gyfer 16 – 20 claf fod fel a ganlyn:

1. Rhaid bod nyrs gofrestredig (iechyd meddwl) ar ddyletswydd yn y sefydliad bob amser.
2. Rhaid i reolwr nyrsio / unigolyn â gofal (nyrs gofrestredig iechyd meddwl) fod ar ddyletswydd am 22.5 awr yr wythnos yn ychwanegol at y staff nyrsio cofrestredig ar ddyletswydd a bennir yn yr hysbysiad hwn.
3. Sifft ddydd – 8.00am – 8.00pm
   - 1 nyrs gofrestredig
   - 4 cynorthwyydd gofal nyrsio

   Sifft nos – 8.00pm – 8.00am
   - 1 nyrs gofrestredig
   - 2 gynorthwyydd gofal nyrsio
4. Fel cymhwyster gofynnol, roedd pob cynorthwyydd gofal nyrsio wedi derbyn hyfforddiant mewnol mewn gofal nyrsio gan yr uwch nyrs/unigolyn â gofal neu nyrs gofrestredig lefel gyntaf arall. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant sefydlu, hyfforddiant tân, hyfforddiant codi a phob hyfforddiant mewnol arall sydd ei angen i alluogi staff i gyflawni dyletswyddau nyrsio.

Roedd tystiolaeth bod y sefydliad yn cael ei staffio yn unol â'r hysbysiad staffio a gyflwynwyd ar 31 Ionawr 2000 fel y nodir uchod.

Roedd cyd-drefnydd gweithgareddau amser llawn yn darparu gwasanaethau i'r sefydliad. Roedd dyn cynnal a chadw wedi cael ei recriwtio hefyd ar ôl cyfnod pan oeddent wedi cael trafferth recriwtio.

Roedd y staff meddygol, cynorthwywr y seicolegydd a'r staff therapi galwedigaethol yn cael eu darparu o'r Ymddiriedolaeth GIG lleol drwy gytundeb comisiynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Roedd tystiolaeth o archwiliadau i ofynion rheoliadol i staff Ymddiriedolaeth GIG i ddarparu gwasanaethau i gleifion yn Olcote House yn dal heb gael eu darparu.

Goruchwyliaeth a hyfforddiant

Gwelwyd bod rhaglen o oruchwylio ac arfarnu ar waith i'r staff hynny oedd yn gweithio yn Olcote House. Roedd pob goruchwyliaeth yn gyfredol.

Nid oedd tystiolaeth ar gael o oruchwyliaeth neu drefniadau hyfforddi i staff Ymddiriedolaeth sy'n darparu gwasanaethau yn Olcote House.

Dywedodd y rheolwr bod y cynllun hyfforddi'n cynnwys cyflenwi hyfforddiant ar sgiliau adsefydlu, asesu gweithgareddau bywyd bob dydd a therapi adferol yn ogystal â hyfforddiant statudol megis tân a chymorth cyntaf.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0607/f Rhaid i'r unigolyn cofrestredig allu dangos i AGIC bod pawb sy'n gweithio yn y sefydliad, gan gynnwys y rhai o'r GIG, yn gymwys i wneud hynny	1 Awst 2007	Rheoliad 18 Atodlen 2
0607/g Rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pawb a gyflogir yn y sefydliad neu i'w ddibenion yn derbyn hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniad priodol ynghylch eu swyddogaeth.	30 Mehefin 2007	Rheoliad 17(2)a

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

RHEOLI CWYNION

Canfyddiadau'r Arolygydd:
<u>Gwybodaeth ar gwynion</u> Roedd polisi cwynion corfforaethol wedi'i sefydlu. Cedwid cofnod o gwynion a'r canlyniadau. Roedd AGIC yn fodlon bod pob cwyn i'w gweld wedi cael ei rheoli'n briodol ac nad oedd materion eraill heb eu bodloni. **<u>Chwythu'r chwiban</u>** Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu ac roedd gwybodaeth ynghylch y polisi wedi ei harddangos ar hysbysfyrddau yn y sefydliad.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

SAFLE, CYFLEUSTERAU AC OFFER

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Y Tu Allan

Mae Olcote House wedi'i leoli yng nghefn hen Ysbyty Ton-teg yn Nhon-teg ger Pontypridd yn ne Cymru.

Roedd mannau glaswelltog yn y cefn ac wrth ochr yr adeilad. Yn y blaen roedd mannau i eistedd y tu allan ac roedd gardd fach o flaen y sefydliad wedi cael ei datblygu fel prosiect i ddarparu gardd synhwyraidd.

Y Tu Mewn

Roedd y llety byw yn cael ei ddarparu mewn pedwar adeilad wedi'u cydgysylltu. Yn y prif dŷ neu'r "craidd" roedd deuddeg ystafell wely, lolfa, mannau gweithgareddau a bwyta yn ogystal â'r brif gegin a'r golchdy ar y llawr gwaelod.

Roedd tri byngalo ar wahân yn lletya cyfanswm o wyth o bobl ac roedd gan bob byngalo ei lolfa/man bwyta, cegin ac ystafell ymolchi/tŷ bach ei hun. Mae digon o le i gleifion eistedd y tu allan os ydynt yn dymuno.

Roedd cleifion yn gallu cloi eu hystafelloedd i ddiogelu eu heiddo a chynnal preifatrwydd. Dywedodd y rheolwr bod cleifion yn gallu dewis lliw eu hystafelloedd gwely pan oeddent yn cael eu hailaddurno. Arsylwyd bod pob ystafell wely a welwyd yn ystod yr arolygiad wedi cael eu personoli gydag eitemau personol. Nodwyd bod angen newid dodrefn yr ystafelloedd gwely yn ystod yr arolygiad diwethaf. Dywedodd y Rheolwr Cofrestredig bod y dodrefn yn cael eu newid mewn ymgynghoriad â'r cleifion er mwyn iddynt allu dewis y math o ddodrefn yr oeddent yn dymuno eu cael.

Ar y llawr cyntaf roedd swyddfa, ystafell staff, ystafell gawod ac ystafell gyfarfod lle cynhelid cyfarfodydd CPA fel arfer.

Tystysgrifau

Gwelwyd bod yr holl dystysgrifau gofynnol yn cael eu harddangos.

Cynnal a Chadw

Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd swydd wag ar gyfer dyn cynnal a chadw a gwelwyd bod addurn cyffredinol y sefydliad wedi dirywio. Roedd y dyn cynnal a chadw wedi bod yn y swydd ers tua 6 mis ar adeg yr arolygiad ac fe gytunwyd ar wariant cyfalaf ar gyfer nifer o brosiectau oedd wedi cael effaith cadarnhaol ar yr amgylchedd.

Mannau ymolchi cymunedol

Yn yr arolygiad diwethaf, nodwyd bod y cyfleusterau ymolchi yn yr adeilad craidd yn annigonol gan nad oedd ond un bath ac un gawod ar gyfer 12 claf rhyw cymysg. Nodwyd hyn fel blaenoriaeth gan nad oedd cyfleusterau en-suite mewn unrhyw ystafell. Ers hynny roedd y llety wedi ei uwchraddio i ddarparu bath a chawod i gleifion o bob rhyw.

Y brif gegin ac arlwyo

Dyfarnwyd y wobr aur i'r cogydd yn yr arolygiad diwethaf gan Adran Iechyd yr Amgylchedd ym mis Ebrill 2007. Mae ail arolygiad i fod i gael ei gynnal ym mis Hydref 2009.

Roedd cyflenwadau arlwyo yn cael eu harchebu a'u danfon gan y brif archfarchnad gadwyn leol.

Golchi dillad
Roedd y dillad i gyd yn cael eu golchi ar y safle ac roedd cleifion yn cael eu goruchwylio gan staff i ddefnyddio'r peiriannau golchi a sychu dillad. Gwelwyd bod stordy'r golchdy yn cynnwys cyflenwad da o gynfasau, blancedi, duvets a gobenyddion sbâr.

Trefniadau ysmygu
Roedd to dros y man cysylltu rhwng y prif adeilad a'r byngalos ond roedd hwn yn agored ar y naill ochr ac roedd wedi cael ei nodi fel y man ysmygu. Roedd rhywfaint o ddodrefn gardd ar gael yn y mannau hyn. Anogir cleifion i gynorthwyo'r gwaith o gadw'r mannau yn lân a thaclus.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/3 Mae angen adolygu ac uwchraddio holl ddodrefn yr ystafelloedd gwely fel y bo'n briodol	31 Mawrth 2009	Rheoliad 24(2) 'a' a 'b' Safon C19.1
0708/4 Rhaid darparu cynllun gweithredu i roi sylw i'r meysydd i'w hatgyweirio neu eu newid a) – p) fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn	31 Gorffennaf 2008	Rheoliad 24(2) 'a' a 'b' Safon C19
0708/5 Rhaid i'r unigolion cofrestredig adolygu'r cyfleusterau ymolchi fel y gellir darparu cyfleusterau ymolchi ar wahân ond cyfartal ar gyfer dynion a menywod	30 Medi 2008	Rheoliad 15(4) Safon M27.4
0708/6 Rhaid i'r unigolyn cofrestredig hefyd archwilio'r ffaniau echdynnu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac y cânt eu newid os ydynt yn mynd yn rhy swnllyd.	31 Gorffennaf 2008	Rheoliad 24(2) Safon C19.1, C19.9

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

RHEOLI RISG

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Polisi rheoli risg

Mae Craegmoor yn darparu polisi rheoli risg corfforaethol i'w weithredu ym mhob un o'i Ysbytai Annibynnol. Mae'r tîm Llywodraethu Clinigol yn helpu i roi cymorth ar gyfer rheoli risg.

Roedd rheolwr risg corfforaethol yn gweithio yn y brif swyddfa yng Nghaerwrangon. Gwelwyd bod asesiadau risg wedi'u sefydlu ar gyfer risgiau cyffredinol yn y gwasanaeth. Rhoddwyd yr asesiadau hyn i'r gwasanaeth gan ymgynghorwyr iechyd a diogelwch oedd hefyd yn cynnal archwiliad blynyddol.

Roedd asesiadau risg yn rhan ganolog o asesiad pob claf i benderfynu ar eu cynllun gofal. Roedd y rhain yn cael eu cwblhau mewn ymgynghoriad ag aelodau timau amlddisgyblaeth o'r Ymddiriedolaeth a gwelwyd eu bod wedi eu sefydlu yn ffeiliau'r cleifion.

Iechyd a Diogelwch

Roedd yn ymddangos bod y Rheolwr Cofrestredig yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Roedd tystiolaeth o hyfforddiant perthnasol i staff yn y sefydliad.

Roedd polisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch. Cedwid cofnodion o bob damwain a digwyddiad a hysbysir Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru amdanynt yn ôl yr angen.

Tân

Roedd asesiad risg tân wedi'i sefydlu a chynhelid ymarferion tân yn rheolaidd. Roedd cynllun gwacáu wedi ei gytuno rhag ofn y byddai digwyddiad arwyddocaol fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i adleoli'r cleifion.

Rheoli Gwastraff

Gwelwyd tystiolaeth o gontractau wedi'u sefydlu ar gyfer gwastraff cyffredinol, clinigol a fferyllol.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd contract wedi'i sefydlu gyda Boots ym Mhontypridd ar gyfer darparu cyflenwadau fferyllol. Roedd y rhaglen archwilio'n cynnwys archwiliad meddyginiaeth i fonitro rhoi meddyginiaeth.

Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer hunanfeddyginiaethu. Nodwyd bod rhai cleifion yn rheoli eu meddyginiaeth eu hunain yn unol â'r polisi.

Cymorth Cyntaf / Dadebru

Gwelwyd bod blychau cymorth cyntaf mewn sawl man. Gwelwyd cofnodion o ran archwiliadau ar gyfarpar.

Deddf Iechyd Meddwl

Roedd gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gweithio yn y brif swyddfa yng Nghaerffili ac mae'n mynd i'r sefydliad yn ôl yr angen.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0506/10 Dylid gwneud trefniadau fel bod y cartref yn derbyn cyngor gan fferyllydd â phrofiad o wasanaethau fferyllol iechyd meddwl	24 Mai 2006	Rheoliad 14(5) Safon M10.3
0506/11 Dylai'r unigolion cofrestredig storio cynnyrch glanhau yn unol â rheoliadau COSHH, polisi mewnol a risg a aseswyd	24 Chwefror 2006	Rheoliad 24(2) ch Safon C23
0607/p Rhaid diweddaru'r asesiad risg COSHH ar gyfer deunyddiau a ddefnyddir yn y byngalos a rhaid cadw at y canlyniad	30 Mai 2007	Rheoliad 24(2)ch Safon C23

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

RHEOLI GWYBODAETH A CHOFNODION

Canfyddiadau'r Arolygydd:

Deddf Diogelu Data

Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ar gyfer rheoli gwybodaeth. Roedd pob aelod o staff a gyfwelwyd yn ymwybodol o gyfrinachedd a'r angen i storio gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Cofnodion Cleifion

Archwiliwyd sampl o gofnodion gofal iechyd. Roedd pob cofnod a welwyd wedi eu dyddio a'u llofnodi'n briodol. Roedd y cofnodion yn adlewyrchu dull amlddisgyblaeth o gynllunio gofal a chydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd y cofnodion wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol ac roedd cofnodion yn cael eu cysylltu'n fwy agos i'r cynlluniau gofal.

Roedd yn amlwg bod y cofnodion cleifion wedi cael eu symleiddio i osgoi dyblygu ac i leihau nifer y ffeiliau lle cedwir gwybodaeth.

Cofnodion Staff

Archwiliwyd sampl o gofnodion staff. Roedd y rhain yn cynnwys tystiolaeth o recriwtio a chydymffurfiaeth gyffredinol ag Atodlen 2 Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002.

Roedd cofnodion i fodloni gofynion rheoliadol i staff Ymddiriedolaeth yn dal heb gael eu bodloni er i hyn gael ei nodi'n ofyniad rheoliadol yn yr arolygiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhaid i'r unigolion cofrestredig roi sylw i hyn.

Archif Cofnodion

Roedd ffeiliau cleifion wedi eu trefnu'n dda ac roedd yn ymddangos ei bod yn hawdd cael gafael arnynt. Dangosodd y rheolwr ymwybyddiaeth o'r amserlenni gofynnol ar gyfer cadw gwybodaeth yn unol ag Atodlen 3 Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002.

Arian Cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig bod y rhan fwyaf o gleifion yn rheoli eu harian eu hunain. Roedd nifer fechan o gleifion yr oedd eu harian yn cael ei ddiogelu gan y Llys Gwarchod. Roedd cleifion yn gallu cadw arian mewn blwch arian yn y swyddfa os oeddent yn dymuno. Pan oedd arian yn cael ei roi i mewn a'i dynnu allan roedd 2 aelod o staff yn tystio a llofnodi.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
0708/7 Rhaid cwblhau archwiliadau iechyd i gleifion yn brydlon.	31 Awst 2008	Rheoliad 8(1)b, 15(1) Safon C2.1, a C3.2

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol:

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
0506/12 Rhaid cael yr holl ddogfennau a benderfynir yn Atodlen 2 Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002. Dylai ffeiliau staff gynnwys ffotograff diweddar.	24 Mawrth 2006	Rheoliad 18 (2) ch Atodlen 2

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

YMCHWIL

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Nodwyd na chynhelir unrhyw ymchwil yn y sefydliad oedd yn ymwneud â gwybodaeth am gynnal y sefydliad neu gyfranogiad staff neu gleifion. Roedd polisi ymchwil corfforaethol gan Craegmoor a gyhoeddwyd yn 2007.

Gofynion a wnaed ers yr adroddiad arolygu diwethaf a fodlonwyd:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion sy'n parhau i fod heb eu bodloni o weithgaredd arolygu blaenorol::

Camau gofynnol	Amserlen wreiddiol i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Amserlen i'w cwblhau	Rhif Rheoliad
Dim		

Argymhellion arfer da:

CYNLLUN GWEITHREDU O'R ADRODDIAD

Canfyddiadau'r Arolygydd:
Pwyslais arolygiad ac adroddiad eleni oedd adrodd ar gydymffurfiad â'r argymhellion a wnaed yn flaenorol yng nghyd-destun cydymffurfio â'r safonau a rheoliadau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Nodwyd 4 gofyniad heb eu bodloni. Rhaid i'r unigolion cofrestredig sicrhau y cynhyrchir cynllun gweithredu i fodloni'r gofynion a wnaed.

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau gofynnol	Pryd y'u cwblhawyd	Rhif Rheoliad
i. Mae'n ofynnol cyflwyno cynllun gweithredu i AGIC sy'n rhoi sylw i'r holl ofynion a wnaed eleni a'r rheiny sy'n parhau i fod heb eu bodloni yn yr adroddiad hwn. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi'n eglur: 1. y gofyniad, 2. y camau i'w cymryd, 3. yr unigolyn sy'n gyfrifol, 4. y dyddiad cwblhau a nodwyd, 5. ac adroddiad o'r sefyllfa ar ddiwrnod llunio'r cynllun gweithredu. 6. Rhaid adolygu'r cynllun bob 3 mis a chyflwyno copi i AGIC ar ddiwrnod olaf y trydydd mis hyd nes y bydd pob gofyniad wedi'i fodloni.	31 Gorffennaf 2009	Adran 31 (1) Deddf Safonau Gofal 2000 *Caiff yr awdurdod cofrestru, ar unrhyw adeg, ofyn i berson sy'n rhedeg neu'n rheoli sefydliad neu asiantaeth ddarparu unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r sefydliad neu'r asiantaeth y mae'r awdurdod cofrestru yn ei hystyried yn angenrheidiol neu'n ddefnyddiol at ddibenion ei swyddogaethau dan y Rhan hon.*

Enw'r Arolygydd: H Nethercott	**Dyddiad:**
Llofnod yr Arolygydd:	